4 Chwefror 2025

Annwyl

**ATISN23233**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 6 Ionawr. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Copïau o unrhyw gytundebau neu ddogfennau cyfatebol ynglŷn â'r trefniant rhannu gofod swyddfa rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r Llywodraeth ers i Gomisiynydd y Gymraeg symud i swyddfeydd y Llywodraeth.

2. Sawl lle parcio sydd bellach wedi'u cyfyngu at ddefnydd Comisiynydd y Gymraeg a/neu ei staff yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays ers i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg symud yno?

3. Pa system TGCh a chysylltiad gwe mae Comisiynydd y Gymraeg a'i swyddogion yn defnyddio i gysylltu o swyddfa'r Comisiynydd ym Mharc Cathays - ai system a chysylltiad gwe annibynnol o'r Llywodraeth neu yr un system a chysylltiad gwe?

4. Faint o arian mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i dalu mewn rhent i'r Llywodraeth ers symud i mewn i'w swyddfa newydd ym Mharc Cathays?

**<u>Ein hymateb</u>**

1. <u>Copïau o unrhyw gytundebau neu ddogfennau cyfatebol ynglŷn â'r trefniant rhannu gofod swyddfa rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r Llywodraeth ers i Gomisiynydd y Gymraeg symud i swyddfeydd y Llywodraeth.</u>

   Rydym yn asesu dogfen prydles rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ac yn ystyried a ddylid atal y ddogfen, neu rannau o'r ddogfen, o dan yr eithriadau canlynol yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:
   - Adran 24: Diogelwch Cenedlaethol
   - Adran 43: Buddiannau Masnachol

   Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ynghylch y cydbwysedd o ran budd cyhoeddus. Oherwydd yr angen i ystyried, ar sail holl amgylchiadau'r achos, beth yw'r cydbwysedd o ran budd cyhoeddus mewn perthynas â'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, ni fydd modd i Lywodraeth Cymru ymateb i'ch cais o fewn 20 diwrnod gwaith. Rydym yn gobeithio anfon ateb atoch erbyn **4 Mawrth 2025**.

2. <u>Sawl lle parcio sydd bellach wedi'u cyfyngu at ddefnydd Comisiynydd y Gymraeg a/neu ei staff yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays ers i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg symud yno?</u>

   Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth wedi'i chofnodi o'r disgrifiad hwn, ond gallaf gadarnhau bod un lle parcio ym maes parcio swyddfa Parc Cathays wedi'i gadw at ddefnydd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

3. <u>Pa system TGCh a chysylltiad gwe mae Comisiynydd y Gymraeg a'i swyddogion yn defnyddio i gysylltu o swyddfa'r Comisiynydd ym Mharc Cathays - ai system a chysylltiad gwe annibynnol o'r Llywodraeth neu yr un system a chysylltiad gwe?</u>

   Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth wedi'i chofnodi o'r disgrifiad hwn. Serch hynny gallaf gadarnhau nad oes gan swyddfa'r Comisiynydd fynediad at strwythur ffeilio digidol y Llywodraeth nac ychwaith fynediad i fewnrwyd Llywodraeth Cymru. Bydd rhaid i chi gysylltu â

Chomisiynydd y Gymraeg am fwy o wybodaeth gan mai'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ei systemau Technoleg Gwybodaeth (gan gynnwys gwasanaethau gwe).

4. Faint o arian mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i dalu mewn rhent i'r Llywodraeth ers symud i mewn i'w swyddfa newydd ym Mharc Cathays?

   Mae'r wybodaeth hon ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 eisoes yn y parth cyhoeddus. Dyma ddolen at y wybodaeth sydd yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2023-24: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg (tudalen 128)

   Ar 6 Ionawr 2024 (sef y dyddiad y derbyniwyd y cais hwn), nid oedd Comisiynydd y Gymraeg wedi talu unrhyw rent i Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Bydd y swm a dalwyd yn ystod 2024-25 yn cael ei gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2024-25 maes o law.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir